Sut ydyn ni'n teimlo am y Comin?

Trosolwg

Mae dysgwyr yn ysgogi eu gwybodaeth flaenorol am emosiynau a theimladau i geisio deall yr emosiynau maen nhw'n eu teimlo ar wahanol adegau yn eu bywydau. Mae hyn yn arwain at ddysgwyr yn meddwl yn feirniadol am fynegiant yr wyneb wrth geisio paru lluniau ag emosiynau ar badled ar-lein. Mae dysgwyr, ac oedolion yn yr ystafell ddosbarth, yn actio emosiynau i eraill geisio eu hadnabod er mwyn cyfnerthu eu dysgu. Defnyddir taith i'r Comin i dynnu lluniau a chasglu gwrthrychau naturiol sydd wedi'w gadael (ar ôl), gan ganolbwyntio ar yr emosiynau a ddaw yn sgil y pethau a welant. Defnyddir y gwrthrychau sydd wedi'w gadael (ar ôl) i wneud 'ffon siwrnai' yn greadigol i ailadrodd eu hymweliad ac yna i wneud darn o waith celf yn adlewyrchu eu hemosiynau ar y daith.

Cyfleoedd i ddatblygu...



COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y gweithgaredd

- Mynediad i'r rhyngrwyd
- Camera, ffôn clyfar neu dabled.

Adnoddau wedi eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

1. Ffotograffau o bobl â mynegiant wyneb gwahanol ar y padlet yn: https://thinklearnchallenge.padlet.org/julie429/6hrl1pagsl15jyp2
2. Cwestiynau ffocws a awgrymir mewn setiau, sy'n ymwneud â phob tasg, y gellir eu rhoi i bob pâr/grŵp wrth iddynt ddechrau pob tasg. I'r gwrthwyneb, gall yr athro ddefnyddio'r cwestiynau hyn.

Sut i redeg y gweithgaredd

Tasg 1: Beth yw ein teimladau?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr feddwl am yr hyn rydyn ni'n ei olygu wrth siarad am ein 'teimladau' neu ein 'hemosiynau'. Anogwch nhw i ystyried sut y gallen nhw 'deimlo' pan maen nhw'n gwneud gwahanol weithgareddau. Er enghraifft, sut maen nhw'n teimlo wrth wneud rhywbeth: newydd; nad ydyn nhw'n hoffi; y maen nhw'n ansicr ohono; y maen nhw'n ei hoffi neu y gallai fod yn beryglus. Gwahoddwch y dysgwyr i nodi gwahanol 'deimladau' neu 'emosiynau' a'u rhoi mewn brawddeg, e.e. 'Rwy'n teimlo'n hapus pan…', 'Rwy'n teimlo'n nerfus pan…', ac ati.

Cwestiynau a awgrymir

- Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'deimladau' neu 'emosiynau'? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut ydych chi'n teimlo ar eich pen-blwydd? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan fydd gennych annwyd? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n uchel i fyny yn rhywle? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan ofynnir i chi wneud rhywbeth nad ydych chi'n meddwl eich bod chi'n dda iawn am ei wneud eto? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n sefyll o flaen yr ysgol mewn gwasanaeth dosbarth? Pam?
- Sut fyddech chi'n defnyddio'r gair 'teimlo' mewn brawddeg? Beth mae'n ei olygu yn y frawddeg hon?
- Pryd ydych chi'n teimlo'n hapus/trist/ofnus/nerfus/ac ati? Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi'n teimlo fel hyn?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 2: Sut mae'r bobl hyn yn teimlo?

Gofynnwch i barau o ddysgwyr feddwl am a thrafod sut maen nhw'n gwybod sut mae pobl yn teimlo neu ym mha fath o hwyliau maen nhw. Anogwch nhw i rannu eu syniadau gyda'r dosbarth a rhoi enghreifftiau pryd maen nhw'n gallu. Er enghraifft, 'Rwy'n gwybod bod fy Mam yn hapus pan fydd hi'n dawnsio o amgylch y gegin', ac ati.

Gwahoddwch y dysgwyr i edrych ar y ffotograffau o bobl ar y padlet (**Adnodd 1**). Gofynnwch iddyn nhw ystyried sut y gallai pob un o'r bobl hyn fod yn teimlo a'u hannog i egluro eu syniadau. Yna, mewn grwpiau bach, ceisiwch baru enw pob emosiwn â'r ffotograff sy'n dangos yr emosiwn hwn. Gallwch wneud hyn gyda phob grŵp gan weithio ar-lein. Fodd bynnag, bydd angen i chi ail-wneud y padlet ar gyfer pob grŵp. I'r gwrthwyneb, gallwch ddefnyddio'r padlet fel tasg ddosbarth ar y bwrdd gwyn.

Cwestiynau a awgrymir

- Sut mae'r person hwn yn teimlo yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa fath o hwyliau sydd ar y person hwn yn eich barn chi? Pam?
- Pa rannau o'r wyneb sy'n eich helpu chi i wybod sut maen nhw'n teimlo? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth yw hyn am wyneb person sy'n eich helpu chi i wybod sut maen nhw'n teimlo?
- Sut mae wyneb rhywun yn newid o pan maen nhw'n hapus i pan maen nhw'n drist, o fod wedi ymlacio i gyffroi, o fod yn ddigynnwrf i ddig, ac ati? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn digwydd?

Tasg 3: Sut ydyn ni'n teimlo?

Gwahoddwch y dysgwyr i feddwl am 'deimlad' neu 'emosiwn' ac i actio hyn i weddill y dosbarth, sy'n gorfod dyfalu pa deimlad/emosiwn sy'n cael ei actio. Gellid gwneud hyn mewn timau, gan ganiatáu tri dyfaliad yn unig; er enghraifft, gyda phwyntiau'n cael eu sgorio am ddyfaliadau cywir a thair ymgais a fu'n fethiant. Fel tasg ychwanegol neu fel dewis arall, efallai y gofynnir i ddysgwyr dynnu llun wyneb yn dangos teimlad/emosiwn neu hyd yn oed gymryd hunlun i ddangos eu hunain yn mynegi teimlad/emosiwn. Gallech chi hefyd ymuno â'r dasg hon ynghyd ag unrhyw gymorthyddion addysgu sy'n bresennol.

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 3: Parhad…

Cwestiynau a awgrymir

- Beth mae'r wyneb hwn yn ei ddweud wrthym am sut mae'r person yn teimlo? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa deimlad/emosiwn sy'n cael ei actio yma? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa deimlad/emosiwn fyddwch chi'n ei actio? Pam?
- Sut y byddwch chi'n ei actio? Pam felly?
- Sut olwg fydd ar eich wyneb? Pam?

Tasg 4: Sut mae'r Comin yn gwneud i ni deimlo?

Cynlluniwch a threfnwch ymweliad dosbarth â Chomin Gelligaer a Merthyr, er y gallai grwpiau llai ymweld yn ystod wythnos ysgol os yw hyn yn fwy cyfleus, ac ati. Bydd angen i ddysgwyr gael cyfleoedd i gymryd ffotograffau a gwneud brasluniau o olygfeydd neu bethau sy'n ennyn rhai emosiynau ynddynt. Bydd angen i ddysgwyr hefyd gasglu amrywiaeth o eitemau ar y daith gerdded a fydd yn cael eu defnyddio mewn tasgau diweddarach. Er enghraifft, brigau, plu, dail, ac ati.

Yn dilyn y daith gerdded, gwahoddwch grwpiau o ddysgwyr i ddefnyddio eu ffotograffau a'u brasluniau i roi cyflwyniad byr i'r dosbarth i ddangos sut mae gwahanol agweddau ar Gomin Gelligaer a Merthyr yn gwneud iddyn nhw deimlo. Gellid mynegi'r rhain ar lafar neu eu darlunio gan ddefnyddio emojis, er enghraifft. Cyn y daith gerdded, efallai y byddwch yn eu hannog i sicrhau bod eu ffotograffau a'u brasluniau yn cyfleu ystod o deimladau/emosiynau.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa ffotograffau ydych chi wedi'u cymryd? Pam?
- Pa deimladau/emosiynau ydych chi'n eu profi wrth edrych ar y ffotograff hwn? Pam?
- Beth ydych chi wedi'i fraslunio? Pam?
- Sut mae'r braslun hwn yn gwneud i chi deimlo?
- Sut y byddwch chi'n dangos eich ffotograffau a'ch brasluniau i'r dosbarth? Pam eu dangos fel hyn?
- Pa emojis fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?

Tasg 5: Sut allwn ni rannu ein teimladau trwy siarad?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio rhai o'r eitemau a gasglwyd ganddynt ar y daith gerdded i greu 'ffon siwrnai' - cofrodd o daith gerdded natur yn y bôn, yn cynnwys eitemau a gasglwyd ar y daith gerdded - e.e. brigau, plu, dail. Yn wreiddiol, roedd cysylltiad rhwng ffyn o'r fath â darllen mapiau gan eu bod yn cael eu defnyddio i helpu pobl i lywio eu ffordd adref.

Gofynnwch i barau o ddysgwyr ddefnyddio eu 'ffyn siwrnai' i ailadrodd am eu hymweliad â'r Comin. Gall hyn fod yn ailadrodd ffeithiol, lle mae dysgwyr yn adrodd stori eu hymweliad, yn egluro pa ffordd y gwnaethant gerdded a beth a gasglwyd a pham. Efallai y bydd dysgwyr eraill yn defnyddio map o'r Comin i ddilyn eu taith. Fel arall, gallai dysgwyr ddefnyddio eu 'ffon siwrnai' i adrodd am antur awyr agored wych lle buont yn brwydro eu ffordd o amgylch y Comin yn ymladd yr elfennau ac mae eu ffon yn femento o sut y gwnaethant oroesi'r dioddefaint.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa eitemau wnaethoch chi eu casglu ar yr ymweliad? Pam wnaethoch chi gasglu pob un o'r pethau hyn?
- Pa ran o'r ymweliad maen nhw'n eich atgoffa ohono? Pam?
- Beth ydych chi'n ei gofio fwyaf am yr ymweliad? Pam?
- Beth yw'r eitem orau i chi ei chasglu? Pam?
- Sut y byddwch yn gwneud eich 'ffon siwrnai'? Pam ei gwneud fel hyn?
- Ym mha drefn y byddwch chi'n rhoi'r eitemau a gasglwyd gennych? Pam yn y drefn hon?
- Sut mae'r ffon siwrnai yn eich helpu i gofio'r ymweliad?
- Sut y byddwch chi'n ailadrodd stori eich ymweliad? Pam y byddwch chi'n ei dweud fel hyn?
- Sut y byddwch chi'n defnyddio'r ffon siwrnai pan fyddwch chi'n ailadrodd y stori?

Tasg 6: Sut allwn ni rannu ein teimladau trwy gelf?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio rhai o'r eitemau y gwnaethon nhw eu casglu ar y daith gerdded i greu darn o gelf. Gallent ddefnyddio'r eitemau i helpu i wneud lluniad neu baentiad, helpu i ailadrodd eu stori am yr ymweliad gyda lluniau, creu arddangosfa ar ffurf thema neu wneud collage i ddarlunio'r Comin.

Cwestiynau a awgrymir

- Pa eitemau wnaethoch chi eu casglu ar yr ymweliad? Pam wnaethoch chi gasglu'r pethau hyn?
- Pa ran o'r ymweliad maen nhw'n eich atgoffa ohono? Pam?
- Beth ydych chi'n ei gofio fwyaf am yr ymweliad? Pam?
- Beth yw'r eitem orau i chi ei chasglu? Pam?
- Pa ddarn o gelf fyddwch chi'n ei wneud? Pam?
- Sut y byddwch chi'n defnyddio'r eitemau hyn i wneud y darn hwn o gelf?
- Pa emosiynau ydych chi'n ceisio eu dangos yn eich gwaith celf? Sut ydych chi wedi ceisio dangos yr emosiynau hyn?
- Pa emosiynau mae eraill yn meddwl bod eich gwaith celf yn gwneud iddyn nhw eu teimlo?

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Adnodd 2: Cwestiynau ffocws a awgrymir

Tasg 1: Beth yw ein teimladau?

- Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'deimladau' neu 'emosiynau'? Sut ydych chi'n gwybod?
- Sut ydych chi'n teimlo ar eich pen-blwydd? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan fydd gennych annwyd? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n uchel i fyny yn rhywle? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan ofynnir i chi wneud rhywbeth nad ydych chi'n meddwl eich bod chi'n dda iawn am ei wneud eto? Pam?
- Sut ydych chi'n teimlo pan fyddwch chi'n sefyll o flaen yr ysgol mewn gwasanaeth dosbarth? Pam?
- Sut fyddech chi'n defnyddio'r gair 'teimlo' mewn brawddeg? Beth mae'n ei olygu yn y frawddeg hon?
- Pryd ydych chi'n teimlo'n hapus/trist/ofnus/nerfus/ac ati? Pam ydych chi'n meddwl eich bod chi'n teimlo fel hyn?

Tasg 2: Sut mae'r bobl hyn yn teimlo?

- Sut mae'r person hwn yn teimlo yn eich barn chi? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa fath o hwyliau sydd ar y person hwn yn eich barn chi? Pam?
- Pa rannau o'r wyneb sy'n eich helpu chi i wybod sut maen nhw'n teimlo? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Beth yw hyn am wyneb person sy'n eich helpu chi i wybod sut maen nhw'n teimlo?
- Sut mae wyneb rhywun yn newid o pan maen nhw'n hapus i pan maen nhw'n drist, o fod wedi ymlacio i gyffroi, o fod yn ddigynnwrf i ddig, ac ati? Pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn digwydd?

Tasg 3: Sut ydyn ni'n teimlo?

- Beth mae'r wyneb hwn yn ei ddweud wrthym am sut mae'r person yn teimlo? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pa deimlad/emosiwn sy'n cael ei actio yma? Sut ydych chi'n gwybod?
- Pa deimlad/emosiwn fyddwch chi'n ei actio? Pam?
- Sut y byddwch chi'n ei actio? Pam felly?
- Sut olwg fydd ar eich wyneb? Pam?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Llywodraeth Cymru Welsh Government

Tasg 4: Sut mae'r Comin yn gwneud i ni deimlo?

- Pa ffotograffau ydych chi wedi'u cymryd? Pam?
- Pa deimladau/emosiynau ydych chi'n eu profi wrth edrych ar y ffotograff hwn? Pam?
- Beth ydych chi wedi'i fraslunio? Pam?
- Sut mae'r braslun hwn yn gwneud i chi deimlo?
- Sut y byddwch chi'n dangos eich ffotograffau a'ch brasluniau i'r dosbarth? Pam eu dangos fel hyn?
- Pa emojis fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?

Tasg 5: Sut allwn ni rannu ein teimladau trwy siarad?

- Pa eitemau wnaethoch chi eu casglu ar yr ymweliad? Pam wnaethoch chi gasglu pob un o'r pethau hyn?
- Pa ran o'r ymweliad maen nhw'n eich atgoffa ohono? Pam?
- Beth ydych chi'n ei gofio fwyaf am yr ymweliad? Pam?
- Beth yw'r eitem orau i chi ei chasglu? Pam?
- Sut y byddwch yn gwneud eich 'ffon siwrnai'? Pam ei gwneud fel hyn?
- Ym mha drefn y byddwch chi'n rhoi'r eitemau a gasglwyd gennych? Pam yn y drefn hon?
- Sut mae'r ffon siwrnai yn eich helpu i gofio'r ymweliad?
- Sut y byddwch chi'n ailadrodd stori eich ymweliad? Pam y byddwch chi'n ei dweud fel hyn?

Tasg 6: Sut allwn ni rannu ein teimladau trwy gelf?

- Pa eitemau wnaethoch chi eu casglu ar yr ymweliad? Pam wnaethoch chi gasglu'r pethau hyn?
- Pa ran o'r ymweliad maen nhw'n eich atgoffa ohono? Pam?
- Beth ydych chi'n ei gofio fwyaf am yr ymweliad? Pam?
- Beth yw'r eitem orau i chi ei chasglu? Pam?
- Pa ddarn o gelf fyddwch chi'n ei wneud? Pam?
- Sut y byddwch chi'n defnyddio'r eitemau hyn i wneud y darn hwn o gelf?
- Pa emosiynau ydych chi'n ceisio eu dangos yn eich gwaith celf? Sut ydych chi wedi ceisio dangos yr emosiynau hyn?
- Pa emosiynau mae eraill yn meddwl bod eich gwaith celf yn gwneud iddyn nhw eu teimlo?

COMIN GELLIGAER & MERTHYR COMMON
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru Welsh Government